



Annwyl Aelod

Mae trefniadau bellach wedi eu gwneud i gynnal cyfarfod blynyddol y Clwb Mynydda am 6.00pm, nos Sadwrn, 13 Tachwedd 2021 yng Ngwesty'r Oakley Arms, Maentwrog gyda'r Cinio Blynyddol i ddilyn yn brydlon am 7.30pm. Noder y bydd rhai aelodau yn ymuno a'r cyfarfod blynyddol drwy gyfrwng Zoom. **Mae'r holl adroddiadau i weld ar wefan y Clwb.**

Rhaglen y noson

1. Gair o groeso gan y Cadeirydd
2. Ymddiheuriadau
3. Derbyn cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2020 a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2020 drwy gyfrwng Zoom fel rhai cywir (Copi ynghlwm)
4. Adroddiad y Trysorydd a mantolen – Dilys A Phillips – Adroddiad ariannol 2020/2021
5. Adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol ac Aelodaeth – Iolo Roberts
6. Adroddiad yr Ysgrifennydd Gweithgareddau – Eryl Owain
7. Adroddiad Ysgrifennydd y Wefan – Iolo ap Gwynn
8. Ethol Swyddogion – Trysorydd & Ysgrifenyddion – **gweler adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol.**
9. Ethol Aelodau'r Pwyllgor – **gweler adroddiad yr Ysgrifennydd Cyffredinol.**
10. Penodi Archwilydd
11. Cynigion a hysbysir ymlaen llaw (Dim cynigion wedi eu derbyn)
12. Trafodaeth agored (trwy'r Cadeirydd cyn dechrau'r cyfarfod)

Ar ddiwedd y cyfarfod bydd Tomos Hughes, Swyddog gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn bresennol i roi arweiniad ar ddefnyddio y diffibrilwyr a dderyniwyd yn ddiweddar.

Yn gywir iawn,

Iolo Roberts
(Ysgrifennydd Gweithredol ac Aelodaeth)